



Adroddiad Arolygu

Lia Rheon

Caerdydd

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/01/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr Plant
Lleoedd cofrestredig	7
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	23.03.2017
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

<u>Llesiant</u>	Rhagorol
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Da
<u>Yr Amgylchedd</u>	Da
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Da

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi setlo yn y lleoliad. Cânt gyfleoedd ardderchog i wneud dewisiadau, a dilyn eu diddordebau. Mae ganddynt gydberthnasau cryf gyda'r gwarchodwr plant ac maent yn gwneud ffrindiau yn y lleoliad. Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth yn dda ac yn mwynhau dysgu drwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n darparu gofal cefnogol a magwrus. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad y plant. Mae hi'n cynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu da i'r plant, sy'n dilyn eu diddordebau. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi datblygiad plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn ddiogel ac yn lân. Mae'n darparu ardal olau a lliwgar i blant chwarae ynddi, gydag ymdeimlad o gartref oddi cartref iddi. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau a chyfleusterau da i alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac ymrwymedig iawn wrth ddarparu gofal plant o ansawdd uchel i blant. Mae hi'n rheoli'r lleoliad yn llwyddiannus ac wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rheini ac asiantaethau eraill.

Mae'r plant yn hyderus iawn wrth gyfathrebu'r hyn maent ei eisiau, eu hanghenion, eu meddyliau a'u syniadau. Mae plant o wahanol oedrannau yn mynegi eu hunain yn hyderus drwy gyfathrebu geiriol a dieiriau. Maent yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn eu hystyried yn llawn ac mae ganddi ddiddordeb mawr ynddynt ac mae'n ymatebol i'w hanghenion. Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Cânt gyfleoedd cyson i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, gwelsom blant yn dewis a oeddent eisiau cerdded neu gael eu gwthio mewn cadair wthio, beth roeddent eisiau i fwyta, pa deganau a gweithgareddau roeddent eisiau chwarae â nhw a sut roeddent yn dymuno treulio eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r plant yn hapus iawn, wedi setlo, ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn cael budd o gysylltiadau cryf iawn o anwylded gyda'r gwarchodwr plant, mae hyn yn amlygu faint maent yn cael eu gwerthfawrogi a'r gofal a gânt. Er enghraifft, gwelsom blant yn gofyn am faldod gan y gwarchodwr plant pan oedd ei angen arnynt.

Mae'r plant yn meithrin cyfeillgarwch cryf â'i gilydd yn y lleoliad, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, neu ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant hyn yn garedig tuag at y plant iau, ac mae pob plentyn yn dysgu i rannu ac i gymryd eu tro. Mae'r plant yn parchu ei gilydd, yn parchu'r gofalwr plant a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Gwelsom blant yn mwynhau'r adnoddau ac yn dewis yr hyn roeddent yn mynd i chwarae â nhw yn frwdfrydig. Gwelsom blant o oedrannau amrywiol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, gwelsom blant yn ymuno â'r gweithgaredd 'bocs tap tap' yn gyffrous, yn gwranddo'n astud ar stori, ac yn canolbwyntio ar liwio.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd ardderchog i feithrin eu sgiliau annibynnol sy'n addas i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Gwelsom blant yn bwydo eu hunain, yn gwisgo eu hesgidiau, ac yn dysgu am ddiogelwch bwyd yn ystod amser casglu'r plant o'r ysgol. Dywedodd y rhieni wrthym fod yr amser gyda gwarchodwr plant wedi helpu datblygiad eu plentyn yn fawr. Mae'r plant yn elwa o fynychu lleoliad cefnogol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'n cael hyfforddiant diogelu rheolaidd sy'n gyfredol. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o faterion diogelu, arwyddion a symptomau cam-drin, a'i dyletswydd ei hun i adrodd am unrhyw bryderon. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo iechyd a hylendid yn ei lleoliad. Mae bwyta'n iach yn brif flaenoriaeth a gwelsom y gwarchodwr plant yn darparu bwyd iach ac yn annog arferion iachus. Mae'r plant yn golchi eu dwylo cyn i'r bwyd gael ei weini. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant fynediad at brofiadau rheolaidd yn yr awyr agored, er enghraifft gwelsom blant yn mwynhau mynd am dro hir, gan gynnig manteision ymarfer corff, awyr iach a phrofiadau dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo menig wrth gyflawni gofal personol i'r plant. Fodd bynnag, nid oedd yn gwisgo ffedog i gyflawni'r tasgau hyn, ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth gadarn iawn o alergeddau'r plant, eu hanghenion deietegol, a'u hanghenion meddygol. Mae'n hyderus wrth gofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau oedd yn bodoli eisoes. Fodd bynnag, nid oes system ffurfiol ar waith i fonitro damweiniau a digwyddiadau am batrymau a thueddiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi meddyginiaeth ragnodedig yn unol â'i pholisi meddyginiaeth ac yn sicrhau bod ffurflenni perthnasol yn cael eu cwblhau'n gywir.

Mae'r gwarchodwr plant yn gynnes ac yn ofalgar â'r plant. Mae ei dull ymatebol a magwrus yn golygu bod y plant yn teimlo'n gyfforddus a chartrefol ac mae hyn yn gosod y naws ar gyfer rhyngweithio rhyngddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl ragorol ac yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ac annog ymddygiad cadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn glir gyda'r plant am ffiniau ymddygiad ac yn eu cefnogi wrth ddysgu sut i reoli rhyngweithio. Er enghraifft, pan gafwyd anghytundeb dros degan, gwnaeth y gwarchodwr plant gefnogi'r plant gyda chymryd eu tro.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymestyn dysgu'r plant yn naturiol wrth siarad â nhw ac ymateb i'r hyn y maent yn ei wneud mewn modd ystyrion. Er enghraifft, ar y ffordd i ac o'r ysgol, clywsom y gwarchodwr plant yn siarad yn naturiol â'r plant am ddiogelwch y ffordd. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r Cyfnod Sylfaen ac mae'n ystyried ac yn cynllunio sut y gellir defnyddio'r amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau yn ei lleoliad yn y gwahanol feysydd dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud arsylwadau syml o ddatblygiad y plant i'w chefnogi wrth gynllunio eu gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n arbennig o dda mewn partneriaeth â'r rhieni i gefnogi datblygiad y plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n dilyn cynlluniau, canllawiau ac argymhellion a wnaed gan weithwyr proffesiynol. Defnyddir Cymraeg achlysurol ac iaith arwyddion yn dda yn y lleoliad.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r mynediadau allanol wedi eu cloi, a chedwir cofnodlyfr o ymwelwyr. Mae'r tystysgrifau diogelwch Nwy a Thrydan yn gyfredol ac mae'r gwarchodwr plant yn wylidwrus wrth sicrhau bod y dystysgrif diogelwch nwy yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol. Mae giatiau grisiau yno i gyfyngu mynediad y plant at ardaloedd megis y grisiau a'r gegin neu'r ystafell chwarae pan nad oes goruchwyliaeth yno. Nid yw'r plant sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at yr ardal i fyny'r grisiau. Mae mynediad uniongyrchol i'r ardd o'r brif ystafell chwarae. Fodd bynnag, nid oedd yr ardd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn ddyddiol. Fodd bynnag nid yw'n cofnodi'n ffurfiol ei bod wedi cwblhau'r gwiriad dyddiol. Mae'r gwarchodwr plant yn rhagweithiol wrth nodi risgiau ac yn gwneud asesiadau risg o sefyllfaoedd yn ddiwyd. Er enghraifft, yn ddiweddar creodd asesiad risg penodol gyda dyfodiad anifail anwes y teulu. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd fel y gall pob plentyn gael y cyfle i ymarfer gadael yr adeilad yn ddiogel ac i sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli teithiau mewn modd diogel iawn. Er enghraifft, gwelsom blant bach yn teithio i ac o'r ysgol yn ddiogel wrth gerdded a defnyddio cadair wthio.

Mae amgylchedd y cartref yn gynnes, yn groesawgar, yn gyfforddus, ac mae mewn cyflwr da. Mae'n darparu ardal olau a lliwgar i blant chwarae ynddi, gydag ymdeimlad o gartref oddi cartref iddi. Mae'r ystafell chwarae wedi ei gosod a'i haddurno er mwyn ei gwneud yn amgylchedd chwarae a'r dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant wedi defnyddio ffenestr i greu arddangosiad gweledol o wynebaw yn dangos gwahanol emosiynau, a chaiff geiriau ac ymadroddion Cymraeg eu harddangos o amgylch y lleoliad. Caiff y plant fynediad i'r ystafell chwarae a'r gegin. Mae seddau codi ar gael er mwyn i'r plant eistedd wrth y bwrdd yn ystod amser bwyd ac amser crefft blêr. Mae'r plant yn mynd i'r toiledau'n annibynnol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Maent wedi'u trefnu'n dda mewn bocsys ffabrig sydd wedi eu labelu'n ddeniadol yn ddwyieithog ac yn defnyddio lluniau er mwyn gwneud yn siwr bod plant o bob oedran yn gwybod beth sydd ynddynt. Mae'r teganau a'r adnoddau o fewn cyrraedd taldra'r plant ac maent o ansawdd da ac mewn cyflwr da. Mae dewis eang o lyfrau ac adnoddau Cymraeg.

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad cryf o weledigaeth a diben. Mae hi'n ymrwymedig i hybu'r canlyniadau gorau i'r plant, gan eu cefnogi i dyfu ac i ddatblygu, a'u galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei lleoliad yn dda. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ac maent yn adlewyrchu arferion cyfredol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r polisi plant coll yn nodi amserlenni ar gyfer galw'r Heddlu pe bai plentyn yn mynd ar goll. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae polisi diogelu cynhwysfawr ar waith. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys. Mae cofnodion y plant wedi eu cwblhau, eu trefnu, ac yn cynnwys contractau, gwybodaeth am y plant a ffurflenni cydsyniad rhieni.

Mae'r gwarchodwr plant yn gofyn am safbwyntiau'r plant a'r rhieni fel rhan o'i hunanwerthusiad a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'n cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd gofal ei gwasanaeth sy'n fanwl ac yn ystyrlon. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n llwyr â'r arolygiad fel rhan o'i hunanwerthusiad a'i phroses wella.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys iawn ac yn brofiadol ym maes datblygiad plant. Mae pob hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, fel cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Mae hi'n ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn cwblhau hyfforddiant gwerthfawr ychwanegol, er enghraifft Sgiliau Bwyd a Maeth yn y Blynyddoedd Cynnar.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cryf â'r rhieni. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a roddir. Dywedwyd wrthym fod y gwarchodwr plant yn rhagweithiol wrth ofalu am eu plant, bob amser yn edrych am ffyrdd o gefnogi datblygiad y plant gymaint â phosibl. Maent yn teimlo bod ei gwasanaeth yn gymorth gwych i'w teuluoedd, ac mae eu plant bob amser yn hapus i fynd i'r lleoliad. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gwybod bod eu plant yn cael gofal mewn modd cadarnhaol a magwrus. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill pan fo'n berthnasol i ofal y plentyn ac mae wedi sefydlu cysylltiadau â grwpiau ac adnoddau lleol. Mae hi yn y broses o adnewyddu ei Gwobr Byrbrydau Safon Aur gyda'r awdurdod lleol.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Sicrhau defnydd cyson o gyfarpar diogelu personol (PPE) wrth gyflawni arferion gofal personol.

A2: Sicrhau bod damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi patrymau a thueddiadau.

A3: Sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd yn cael eu cofnodi.

A4: Sicrhau bod y polisi plant coll yn nodi'n glir y gweithdrefnau fydd yn cael eu cymryd pe bai angen gwneud hynny.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Dyddiad Cyhoeddi 24/03/2023